



# Diwrnod y Lluoedd Arfog 30 Mehefin 2018

Newyddlen Rhifyn 1 - Tachwedd 2017

## CROESO...

Croeso i argraffiad cyntaf ein newyddlen a fydd yn eich hysbysu o'r diweddaraf o ran y cynlluniau ar gyfer Diwrnod Cenedlaethol Y Lluoedd Arfog. Cynhelir y digwyddiad, sy'n cael ei ddathlu am y degfed tro'n olynol, ym Mwrdeistref Sirol Conwy, Gogledd Cymru ym mis Mehefin 2018.



Rwyf i, yn fy ngwaith fel Pencampwr Lluoedd Arfog Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yn falch iawn ac yn hynod gyffrous bod tref Llandudno wedi'i dewis i gynnal Diwrnod y Lluoedd Arfog ar ran Cymru. Bydd yn sicr yn ddiwrnod i'w gofio!

Bellach, dim ond wyth mis sy'n rhaid disgwyl tan y bydd y sylw'n troi at Gymru. Rhwng 25 Mehefin a 1 Gorffennaf 2018 byddwn yn cynnal ystod o ddigwyddiadau ar draws Sir Conwy i ddiolch i'n milwyr a chyn-filwyr. Y tu ôl i'r llen, rydym yn gweithio'n galed iawn i sicrhau ein bod yn cynnal digwyddiad sydd wir yn cyfleu ein gwerthfawrogiad o'n milwyr sy'n gweithio'n galed i gadw ein gwlad yn ddiogel gartref a thramor.

Bydd yr wythnos yn llawn dathliadau i dalu teyrnged i'r dynion a'r merched hynny sy'n gwasanaethu, neu sydd wedi gwasanaethu yn y Fyddin, yr Awyrlu Brenhinol a'r Llynges Frenhinol. Ddydd Sadwrn, 30 Mehefin bydd cannoedd o filwyr a chyn-filwyr yn gorymdeithio ar hyd strydoedd Llandudno, a bydd pentref digwyddiadau yno i ddiddanu'r dorf, gyda digonedd o weithgareddau a chyfleoedd i weld cerbydau a chyfarpar milwrol anhygoel ac arddangosfeydd ardderchog.

Yn ogystal â'r diwrnod mawr, bydd digwyddiadau eraill hefyd yn cael eu cynnal gan gynnwys seremoni codi'r faner, Diwrnod Milwyr Wrth Gefn, digwyddiad chwaraeon arbennig yn Syrffio Eryri, digwyddiad golffio, cinio mawreddog yn Venue Cymru, a llawer mwy. Felly, cadwch lygad ar y diweddaraf wrth i ni ddatblygu ein rhaglen o ddigwyddiadau ymhellach a chofiwch rannu'r newyddlen hon i eraill gael gwybod am ein digwyddiadau.

Byddwn yn eich diweddarau'n rheolaidd, felly cadwch lygad yn agored am y newyddlen hon er mwyn dod i wybod y diweddaraf. Rydym hefyd yn awyddus iawn i glywed gennych chi, felly gadewch i ni wybod sut yr hoffech gymryd rhan a chysylltwch â ni.

Y Cynghorydd Liz Roberts  
Pencampwr y Lluoedd Arfog  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

## Yn galw ar bob cyn-filwr!

### Hoffech chi gymryd rhan yn yr orymdaith seremonïol?

Bydd yr orymdaith seremonïol hon yn digwydd ar Ddiwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog ddydd Sadwrn 30 Mehefin 2018. Mae hwn yn ddiwrnod arbennig i lawer, a gofynnir i gyn-filwyr o bob rhan o'r sir a'r tri gwasanaeth ymuno â'r orymdaith.

Os hoffech chi gymryd rhan, byddem wrth ein boddau i glywed gennych chi. Mae manylion am sut i gofrestru eich diddordeb ar gael yn [www.conwy.gov.uk/gorymdaithdlla](http://www.conwy.gov.uk/gorymdaithdlla). Disgwylir y bydd llawer o alw, felly anfonwch eich ffurflenni cofrestru atom ddim hwyrach na (28/02/2018).



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr  
University Health Board



## Mae Diwrnod y Lluoedd Arfog eich angen chi!

**Ydych chi eisiau helpu?** Er mwyn cynnal digwyddiad o'r maint hwn yn llwyddiannus mae angen cannoedd a channoedd o unigolion i'n cynorthwyo, rydym felly'n chwilio am wirfoddolwyr brwdfrydig i weithio fel stiwardiaid a marsialiaid.

Er gall y gwaith fod yn flinedig ar adegau (blinedig iawn i'ch traed yn arbennig!), mae'r mwyafrif o'r gwirfoddolwyr sy'n gysylltiedig â'n rhaglen ddigwyddiadau yn dweud bod y gwaith yn ddiddorol iawn ac yn rhoi boddhad iddynt.

Os hoffech chi gymryd rhan a helpu gyda'r digwyddiad hwn, cysylltwch â [digwyddiadau@conwy.gov.uk](mailto:digwyddiadau@conwy.gov.uk), a bydd y tîm yn ddigon parod i drafod y cyfleoedd sydd ar gael gyda chi.

## Arddangoswyr a stondinwyr

**Ydych chi'n elusen genedlaethol neu'n sefydliad sydd eisiau mynychu'r digwyddiad?** Eleni, rydym yn bwriadu sefydlu Pentref 'Y Lluoedd Arfog a Lles' a dros y misoedd nesaf byddwn yn cymryd archebion gan arddangoswyr sy'n berthnasol i'r digwyddiad.

Yn gyntaf, mynegwch eich diddordeb drwy e-bostio eich manylion cyswllt a gwybodaeth am yr hyn y gallwch chi ei gyfrannu at y digwyddiad at [digwyddiadau@conwy.gov.uk](mailto:digwyddiadau@conwy.gov.uk)

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau, dilynwch ni ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol isod.

## Peidiwch ag oedi!

Archebwch eich llely ar unwaith! Os ydych am gymryd mantais o'r digwyddiad hwn a threulio wythnos neu benwythnos yma, rydym yn cynghori eich bod yn archebu eich lle yn fuan. Yn ddiweddar, cipiodd Gogledd Cymru'r pedwerydd safle ar restr o leoliadau prydfferthaf y byd, ac mae'r ardal hon yn ddelfrydol ar gyfer unrhyw un sy'n chwilio am antur. Beth am dreulio penwythnos hir neu wythnos yma? Am ragor o wybodaeth ar dwristiaeth yng Nghonwy, ewch i: <http://cy.visitllandudno.org.uk/> neu ffoniwch y Ganolfan Groeso i archebu ar **01492 577577**.



## Dewch i adnabod Arweinydd y Prosiect

Fel arweinydd y prosiect hwn, rwyf yn edrych ymlaen at gynnal digwyddiad a fydd yn aros yn y cof am flynyddoedd i ddod. Ers darganfod ein bod am gael y frainc o gynnal y digwyddiad hwn ar flwyddyn arbennig iawn - dathliad y digwyddiad yn 10 mlwydd oed - rwyf wedi cwrdd a siarad â llawer o sefydliadau a phobl sy'n gwneud gwahaniaeth mawr o fewn y cymunedau y maent yn byw ynddynt ac yn gwasanaethu.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn frwdfrydig iawn dros ddefnyddio'r digwyddiad hwn fel catalydd i sefydlu'r gwaith rydym yn ei wneud o dan Gyfamod y Lluoedd Arfog ymhellach. Yn ystod yr wythnos o ddigwyddiadau, rydym wir eisiau **DIOLCH YN FAWR** i'r Lluoedd Arfog a chyn-filwyr ac rydym eisiau sicrhau bod y gymuned ar draws Gymru a thu hwnt yn cael cyfle i ddangos ei chefnogaeth a #SaliwtioEinLluoedd am eu gwaith.

Gyda dim ond wyth mis i fynd tan y digwyddiad mawr, mae digon i'w wneud ac mae fy nhîm anhygoel, byddwch yn siŵr o ddod i adnabod pob

un ohonynt dros y misoedd nesaf, yn gweithio'n galed i sicrhau fod pob dim yn ei le. Maent yn gweithio'n agos gyda'r Cynol Lance Patterson o Frigâd 160 y Troedfilwyr a'i dîm, Arweinwyr y Fyddin ar gyfer y digwyddiad, cydweithwyr o Dîm Digwyddiadau Seremonïol a Choffa'r Weinyddiaeth Amddiffyn, yn ogystal â Heddlu Gogledd Cymru, partneriaid allweddol, budd-ddeiliaid, noddwyr, busnesau, elusennau, contractwyr, grwpiau cymunedol, cyn-filwyr - mae'r rhestr yn hir iawn ac yn tyfu'n fwy bob diwrnod! Mae gan bawb ran i'w chwarae ac mae llawer o bobl yn gweithio'n galed iawn i wneud gwahaniaeth ac i sicrhau bod hwn yn ddigwyddiad ardderchog.

Os nad ydych yn cymryd rhan yn barod, rwyf yn awyddus iawn i glywed eich barn ac eich syniadau chi. Rydym hefyd yn awyddus i gryfhau a datblygu partneriaethau newydd. Beth am anfon e-bost ataf? [rachael.gill@conwy.gov.uk](mailto:rachael.gill@conwy.gov.uk). Edrychaf ymlaen at glywed gennych yn fuan.

